D. TECWYN LLOYD yn pryderus gofio oes

# Y CASGLU MAWR

ERBYN hyn, dim ond arbenigwyr ar hanes addysg yng Nghymru sydd yn gwybod mai trwy gyfraniadau preifat y cynhaliwyd Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth am y deuddeng mlynedd cyntaf o'i hanes. Ni chafwyd dimai o help gan y Llywodraeth tan 1884-5, ac felly 'doedd dim amdani ond casglu'r arian angenrheidiol dros Gymru gyfan.

Ni bu cyfoethogion Cymru, ar wahân i deulu Llandinam, yn hael wrth y fenter newydd ac felly, rhaid oedd troi at y werin bobl ac yn arbennig at eu capeli am gymorth ac mae'n wir llythrennol mai ceiniogau a sylltau pobl gyffredin a gynhaliodd goleg Aberystwyth am ei ddeuddeng mlynedd gyntaf.

Cymry Cymraeg oedd y mwyafrif llethol ohonynt; eto, ni ddysgid na Chymraeg na Hanes Cymru yn y coleg!

Mae'n digwydd bod gennyf Adroddiad a rhestr tanysgrifwyr y coleg am 1875-6, sef y 'Temporary Sustentation Fund' fel y gelwir ef. Nodir mai saith o 'Professors' oedd yma ar y pryd, gan gynnwys T.C. Edwards, y Prifathro. At hyn, yr oedd E. Penllyn Jones yn Gofrestrydd a Llyfrgellydd.

Rhyngddynt, yr oedd y 'Professors' hyn yn darlithio ar ryw 23 o bynciau gwahanol; un ohonynt, F.W. Rudler F.G.S., yn traethu ar chwe gwahanol bwnc, sef 'Chemistry, Physiology, Zoology, Physical Geography, Geology, Botany.'

Dim ond J. Parry, Mus.Bac:, (Cantab:), sy'n cael rhoi ei holl sylw i ddim ond un pwnc, sef Cerddoriaeth. 'Does dim rhaid dweud pwy oedd o.

* * *

TROWN at y Tanysgrifwyr. Nodir enw pob un a gyfrannodd hanner coron (121/2c) a mwy i'r Gronfa, ac o'r rhai hyn ceir 4,075 a chyfanswm eu cyfraniadau yw £1,526.15.8. Ond cyfranwyr symiau o dan hanner coron oedd y mwyafrif; 'at least 66,000 persons' medd yr Adroddiad. Eu cyfanswm hwy oedd £1,612.1.10.

Yn ôl siroedd, nid annisgwyl yw gweld mai Ceredigion a gyfrannodd fwyaf, sef £521.5.11/2. O'r sir hon, wrth gwrs, y deuai'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr. Sir Faesyfed biau gwaelod y rhestr gyda dim ond £1.11.0, sef 10/- o gapel Bedyddwyr Bethania a Glan Elan a gini gan gapel M.C. y Maes. Dros Glawdd Offa, cafwyd £218.11.11 o Lerpwl; £44.4.11 o Lundain a £37.8.6 o Fanceinion.

Un o gampau diplomyddol Syr Hugh Owen oedd llwyddo i wneud casglu at gronfa'r coleg yn fater i'r capeli trwy Gymru. Peth cwbwl newydd oedd sefydlu a chynnal coleg nad oedd yn un enwadol. Dengys llythyrau T.C. Edwards (gol: T.I. Ellis, 1952-3) mor hawdd oedd taflu'r drol enwadol ymhlith gwerin bobl yr oedd y syniad o goleg seciwlar yn beth newydd iddynt.

Heblaw'r capeli, cesglid arian o dŷ i dŷ ac y mae ambell restr yn nodi galwedigaeth y cyfranwyr. E.engh: yng Nghastellnewydd Emlyn ceir: 'Drover, Weaver, Currier, Tanner, Wheelwright, Skinner, Druggist, Printer, Watchmaker, ac yno hefyd bu'r tafarnau, gryn naw ohonynt, yn gyfranwyr amlwg.

Ond yn aml, dim ond cyfansymiau o'r capeli a gawn: E.engh: M.C. Pencaenewydd — £1.13.4: Penygraig, Pwllheli — £0.11.4: Rhiw, Sarn — 5/0: Brithdir, A., Dolgellau, — 8/4: M.C. Cynwyd £1.13.0: yn y mannau hyn, cyfraniadau unigol o dan hanner coron a gafwyd.

* * *

O BENLLYN, cafwyd canpunt gan Syr Henry Robertson, y diwydiannwr o'r Pale, Llandderfel; teirpunt gan Dr Lewis Edwards, y Coleg a £1.15.6 gan 'The Students of C.M. College, Bala'. Rhwng pawb, cyfranwyd £133.18.6 gan dre'r Bala. O'r cylch, gwelwn enw Thomas Ellis, Cynlas, (tad Tom Ellis) yn cyfrannu 10/-.

O'm hardal fy hun, sef Glanrafon, cafwyd cyfanswm o £1.9.81/2, ond neb yn cyfrannu mwy na 5/-. Yn wir, dim ond chwech o gyfranwyr dros 2/6 a enwir; rhaid mai bob yn swllt a chwecheiniog y daeth y gweddill o 12/21/2 i law yno. Dau o gyfranwyr yr hen ardal oedd Tomos a Richard Williams, sef dau daid y diweddar fardd W.D. Williams.

Cyfanswm yr holl gyfraniadau dros Gymru a rhai o drefi Lloegr am 1875-6 oedd £3,188.17.6. Amcan y 'Sustentation Fund' oedd crynhoi cyfalaf i ddodwy llogau blynyddol er cynnal y coleg; nid i'w gwario'n uniongyrchol ar gyflogau ac adeiladau.

Gosodwyd tair blynedd yn nod i sicrhau hyn a gobeithid, os cyrhaeddid ef, na byddai angen cymaint o gasglu a mynd ar ofyn y wlad.

* * *

YN Y cyfamser, rhaid oedd gwylio pob ceiniog. Nid rhyfedd fod Syr Hugh Owen ar Ionawr 7, 1876 yn sgrifennu'n geryddgar at Penllyn Jones, y Cofrestrydd, ynglŷn â chyfrifon ei swyddfa:

> **I remarked on the 12 bottles of Gum at 1/- each and enquired, 'why so many?' You make no reply to this enquiry. As to the Gum, I told you that I had not long since obtained a penny bottle of excellent Gum which will last us for weeks .**

Deuddeg swllt am ddwsin o boteli 'Gum'. Ni buasai holl gasgliad capel Nebo Llanllyfni (10/6) am yr un flwyddyn yn ddigon i dalu amdanynt! Na chasgliad Moriah, Llanystumdwy, Wesleaid Llanfairfechan, Annibynwyr Llaniestyn, Ganllwyd, Rhydymain, Cynwyd, Tabor Dolgellau, Llwyngwril . . . Naw swllt am y clipiau papur, hynny wedyn tu hwnt i gyfanswm Saron, y Bermo; M.C. Darowain, Annibynwyr Dylife, Glasbwll Machynlleth, Glanhafren, Wesleaid Llansilin a Llanwddyn a sawl lle arall.

Waeth heb drethu mwy ar ofod *Y Casglwr*. Mae'r wers, mi gredaf, yn glir. Os caiff yr Hen Wyddeles, chwedl y Golygydd, ddeng mlynedd arall yn Heol Downing, fe ddaw'r Casglu Mawr yn ôl; hynny neu ddiflaniad ein prifysgol.

# ENLLIB HEN NOFEL

Gan
DAFYDD WYN WILIAM

YN YSTOD Cyfarfodydd Undeb y Bedyddwyr yng Nghaergybi, Môn, 21-24 Medi 1908, gwelid gweinidog ifanc, y Parchedig J. Tywi Jones, yn gwerthu copïau o nofel a ysgrifenasai, sef *Dirgelwch Dig neu Gyfrinach y Ffermwr Mawr* (Aberdâr, 1908), nofel sy'n cynnwys wyth ugain o dudalennau. Rhydd yr awdur gyflwyniad byr ar ddechrau'r nofel.

> *I'm hen gyfeillion a wyddant cystal a minnau am lawer o'r helyntion a ddarlunir, a'r cymeriadau a goffeir yn y llyfryn hwn, gan hyderu nad annyddorol ganddynt fydd tro trwy hen lwybrau y gorffennol. Hwn yw cynnyg cyntaf yr awdwr yn y gangen hon o Lenyddiaeth, a chyda gwylder y gesyd ef yn eich dwylaw, yn y gobaith na fydd yn hollol amddifad o ddifyrwch ac adeiladaeth i'r rhai a'i darllenant.*

Ymddengys fod y llyfryn wedi ei seilio ar 'helyntion' a oedd yn hysbys i'r awdur ac eraill. Credaf mai ym Modedern a'r fro y digwyddodd yr helyntion sy'n sylfaen i'r nofel hon, helyntion y cafodd yr awdur gyfle i holi amdanynt pan oedd yn weinidog ifanc ym Môn yn ystod y blynyddoedd 1897-1906.

Ordeiniwyd y Parchedig J. Tywi Jones yn weinidog Eglwys y Bedyddwyr yn Llanfair Mathafarn Eithaf (ei ofalaeth gyntaf) yn 1897 a chroesawyd ef i blith aelodau Cymanfa Bedyddwyr Môn yn niwedd y flwyddyn honno.

Un o aelodau amlycaf y Gymanfa hon oedd John Lewis (1827-
1915) o Lanllibio, ger Bodedern. Yn ystod y naw mlynedd y bu gweinidog ifanc a bywiog Llanfair Mathafarn Eithaf yn gwasanaethu ym Môn deuai wyneb yn wyneb yn fynych â'r henwr o Lanllibio ar lawr y Gymanfa ac mewn cyfarfodydd achlysurol eraill. Yn sicr bu gwrthdaro syniadol rhyngddynt.

* * *

AC YNTAU, ers dwy flynedd, yn weinidog Y Glais, ger Clydach ym Morgannwg, fe ddaeth nofel J. Tywi Jones o'r wasg, nofel sy'n datguddio'r hyn oedd wrth wraidd dicter Risiard Prys, y ffermwr mawr o Gefngole, at Wiliam Jones o'r Llechwedd, sef bod yr olaf yn blentyn anghyfreithlon i'r blaenaf.

Nid oes gwadu nad John Lewis o Lanllibio (dan gochl enw Risiard Prys) yw prif gymeriad *Dirgelwch Dig neu Gyfrinach y Ffermwr Mawr*. Gweithred go gïaidd oedd ysgrifennu nofel yn datguddio gwendidau a helyntion gŵr amlwg a oedd ar y pryd dros bedwar ugain oed a phedlera copïau ohoni yn un o uchel wyliau mwyaf parchus y Bedyddwyr.

Daeth copi o'r nofel, meddir, i law John Lewis a brysiodd at gyfreithiwr i geisio atal ei gwerthu. Wrth gwrs ni ddaeth dim o hynny oherwydd gwisgwyd holl enwau'r cymeriadau a hefyd yr enwau lleoedd dan glogyn enwau ffug. At hyn oll fe ysgrifennwyd y nofel yn nhafodiaith De Cymru.

Hawdd dychmygu teimladau John Lewis ar y pryd. Tybed a welodd ei drydedd wraig gopi o'r nofel!

Bu John Lewis ifanc yn brentis o siopwr ym Modedern, Caergybi, Manceinion a Llundain cyn sefydlu ei siop ei hun yng Nghaergybi yn 1847. Pan fu farw ei frawd a'i fam, o fewn mis i'w gilydd yn 1870, fe gymerodd denantiaeth Llanllibio, un o ffermydd mwyaf y fro am y rhent blynyddol o £260.

Fel ei rieni o'i flaen fe fynychai Eglwys y Tabernacl, Bodedern ac ef oedd y pendiacon. Yn ystod y cyfnod 1872-91 gwasanaethwyd yr Eglwys hon gan bum gweinidog. Buasai'n ddiddorol gwybod beth oedd y berthynas rhwng y gweinidogion hyn a John Lewis.

Ni welais fwy na dau gopi o *Dirgelwch Dig* . . . a chefais hwy o gasgliadau preifat. Yn gefndir i'r nofel dylid darllen *Y Diweddar John Lewis, Ysw., Y.H. Llanllibio* (1915) gan W.D. Jones. Os yw'r nofel yn gignoeth y mae'r cofiant byr yn gyfoglyd o siwgwraidd!